



'BYDDWCH YN RHAN OHONI'

FFOCWS 3 BLYNEDD, 2024 - 2027



GWERTHOEDD



BOD YN GYSYLLTIEDIG

Rydw i'n rhan annatod o'r teulu hoci a byddaf yn gwneud fy ngorau i Dyfu, Uno, Cefnogi ac Ehangu'r gamp yng Nghymru.



BOD YN ANGERDDOL

Mae'r Gamp yma'n bwysig, mae'r hyn rydw i'n ei wneud ar gyfer y gamp yn gwneud gwahaniaeth ac mae'n bwysig i mi.



BOD YN EGNÏOL

Rydw i'n ddiwyro yn fy ymdrechion i alluogi'r gamp i ffynnu, gan greu Hwyl

GWELEDIGAETH

TANIO ANGERDD DROS HOCI

CENHADAETH

Hwyluso cyfleoedd i **BAWB YMGYSYLLTU, CYSTADLU A PHERFFORMIO** drwy angerdd a rennir dros Hoci

YMGYSYLLTU

CYSTADLU

PERFFORMIO

Dod yn sefydliad cynaliadwy yn fasnachol – Bod yn swllyd ac yn gyson
Hoci i bawb – Cryfhau'r busnes
Creu Amgylcheddau i Ffynnu

OS YDYCH CHI

CONTENTS

01 GWELEDIGAETH & CENHADAETH

02 GWERTHOEDD

03 EIN HAMCANION

04 ENGAGE

05 COMPETE

06 PERFORM





GWELEDIG AETH

TANIO ANGERDD DROS HOCI

CENHADAETH

Hwyluso cyfleoedd i **BAWB YMGYSYLLTU,**
CYSTADLU A PHERFFORMIO drwy
angerdd a rennir dros Hoci

PLAY FOR THE
DRAGON



GWERTHOEDD



BOD YN GYSYLLTIEDIG

Rydw i'n rhan annatod o'r teulu hoci a byddaf yn gwneud fy ngorau i Dyfu, Uno, Cefnogi ac Ehangu'r gamp yng Nghymru.



BOD YN ANGERDDOL

Mae'r Gamp yma'n bwysig, mae'r hyn rydw i'n ei wneud ar gyfer y gamp yn gwneud gwahaniaeth ac mae'n bwysig i mi.



BOD YN EGNÏOL

Rydw i'n ddiwyro yn fy ymdrechion i alluogi'r gamp i ffynnu.



EIN HAMCANNON





Creu Amgylcheddau i Hoci ffynnu

- Creu amgylcheddau croesawgar ac amrywiol ar bob lefel o'r gêm
- Cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau buddsoddiad blynyddol i wella cyfleusterau ar draws cymunedau yng Nghymru.
- Datblygu a chyflwyno cynllun gweithredu Datblygu Cynaliadwy.
- Gweithio'n agos gyda chlybiau i ddatblygu ac ehangu Fframwaith Clybiau - gan alluogi clybiau i gael eu gweithredu a'u llywodraethu yn dda a bod yn gynaliadwy.



Cryfhau'r busnes

- Llywodraethu a Chyllid – diogelu'r presennol a'r dyfodol drwy fabwysiadu'r technolegau, y prosesau a'r arferion ariannol gorau
- Hyfforddiant – Sicrhau bod ein staff a'n bwrdd yn cael DPP a hyfforddiant rheolaidd i sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran arfer modern.
- Cyrraedd a chynnal safonau Diogelu Lefel 3.
- Sicrhau bod arferion cyllid a llywodraethu cadarn yn cael eu darparu gan fwrdd cyfranogol sy'n seiliedig ar sgiliau.
- Sicrhau bod technoleg ddigidol a seibrddiogelwch yn flaenllaw yn ein sefydliad.





Dod yn sefydliad sy'n fasnachol gynaliadwy

- Meithrin partneriaethau hirdymor a fydd yn cynyddu ein refeniw masnachol ac yn gwella ein darpariaeth i aelodau.
- Cynyddu ein dealltwriaeth o'r Teulu Hoci gan ein galluogi i greu cyswllt dyfnach â'r gamp, gwella sgysiau, cynyddu ein hymgysylltu a sbarduno refeniw.
- Lansio Sefydliad Hoci elusennol sy'n defnyddio pŵer chwaraeon a hoci i wneud newidiadau cadarnhaol mewn cymdeithas a chynyddu cyfranogiad.
- Adeiladu cynaliadwyedd ariannol a chynyddu refeniw masnachol drwy wneud y mentrau presennol yn fwy effeithlon ac arallgyfeirio ffrydiau incwm
- Gwerthfawrogi, datblygu a chryfhau ein sylfaen o wirfoddolwyr.





Bod yn Swnllyd ac yn gyson

- Gwneud y defnydd gorau posibl o blatfformau digidol drwy ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol yn briodol
- Negeseuon clir a chyson yn cael eu cyflwyno yn amserol gan hyrwyddo Hoci fel camp gydol oes, i gynulleidfaedd iau a mwy amrywiol.
- Cyflawni ffisegol – Mae angen i Hoci Cymru fod yn weladwy mewn cymunedau blaenoriaeth ledled Cymru.
- Creu cynnwys rheolaidd y mae'r teulu Hoci nid yn unig yn ei hoffi ond yn ei rannu.
- Bydd Chwaraewyr, Hyfforddwyr, Rheolwyr, Arweinwyr Ifanc, clybiau, gwirfoddolwyr a Dyfarnwyr yn parhau i fod yn ganolog i'n straeon ni.



HOCI I BAWB

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – Tegwch a Chyfle

- Cefnogi clybiau i greu strwythur a diwylliant chwarae hygyrch a chefnogol ledled Cymru
- Addysgu hoci yng Nghymru gydag amrywiaeth o straeon amrywiol
- Annog mwy o amrywiaeth ar draws llwybr perfformiad Hoci Cymru a'r timau cenedlaethol
- Defnyddio technoleg sy'n cyffroi ac yn ennyn diddordeb pobl ifanc. Ac yn ein galluogi i gyrraedd cynulleidfa amrywiol





YMGYSYLLTU

Hoci i bawb, ym mhob man, mewn amrywiadau
lluosog, ac ar wahanol arwynebau.



YMGYSYLLTU

Cymunedau Amrywiol

- Defnyddio gwybodaeth a gasglwyd i ddatgelu anghenion heb eu diwallu o fewn cymunedau amrywiol a heb gynrychiolaeth ddigonol, gan greu mentrau wedi'u teilwra a llwybrau cynhwysol sy'n darparu ar gyfer diddordebau unigryw ac yn annog cysylltiadau.
- Mae hyn yn cynnwys ffurfio partneriaethau â sefydliadau lleol, gweithredu rhaglenni diwylliannol sensitif, darparu adnoddau hygyrch i gyflwyno ac integreiddio'r cymunedau hyn i mewn i Hoci yng Nghymru gan ehangu cyrhaeddiad y gamp

Dulliau Gêm Newydd

- Gwella fformatau cyfredol ac arloesi amrywiadau newydd y mae posib eu haddasu i gyd-fynd â thueddiadau sy'n esblygu ac amgylcheddau deinamig, gan sicrhau bod Hoci yn parhau i fod yn ymatebol ac yn berthnasol.
- Hyrwyddo hyblygrwydd hoci drwy arddangos gallu'r gamp i addasu i arwynebau amrywiol, codi ymwybyddiaeth o amgylcheddau chwarae amrywiol, a thynnu sylw at yr ystod o fformatau sydd ar gael.

YMGYSYLLTU

Datblygu Pobl *(Grymuso pob aelod drwy gydol eu siwrnai hoci)*

- Creu llwybr wedi'i ddiffinio'n dda sy'n grymuso ein hyfforddwy'r a'n pobl ni i wella eu sgiliau'n barhaus, gan eu galluogi i wneud cynnydd a ffynnu ar eu siwrnai hoci unigryw.
- Ffurfioli'r ddarpariaeth o galendr tymor Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) cynhwysfawr, ynghyd ag adnoddau hygyrch ar gyfer hyfforddwy'r, dyfarnwyr, athrawon a rhanddeiliaid ehangach eraill sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd i gyd-fynd â'r safonau a'r arferion diweddaraf.

Cefnogi Clybiau

- Darparu system adborth reolaidd ac ymdrechion wedi'u targedu i greu amgylchedd cefnogol a chynhwysol, a thrwy hynny gynyddu ymgysylltu hirdymor a chadw chwaraewyr, hyfforddwy'r, swyddogion a rhanddeiliaid eraill yn y gamp.

Llwybrau Addysg

- Datblygu partneriaethau hirsefydlog gydag Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion i wella ein darpariaeth Hoci a chaniatáu i gymaint o chwaraewyr â phosibl gael ffyn yn eu dwylo yn ystod gwahanol gyfnodau ar eu siwrnai hoci.
- Creu rhaglen ysgolion arloesol sydd wedi'i chynllunio i integreiddio hoci yng nghwricwlwm ysgolion, gan ddarparu digon o gyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu â'r gamp a'i chroesawu fel rhan annatod o'u haddysg.



YMGYSYLLTU

Bydd Llwyddiant yn...



- Hwyluso 10 cwrs y flwyddyn i alluogi DPP ar gyfer Hyfforddwr, Dyfarnwr a Swyddogion. Gwella cynaliadwyedd ac ansawdd ein camp
- Cynyddu ein haelodaeth Iau 3% y flwyddyn ym mhob rhanbarth lleol yng Nghymru (Gogledd, De, Gorllewin)
- Targedu ardaloedd allweddol o alw cudd a chynyddu cyfranogiad o 3% ym mhob rhanbarth lleol yng Nghymru (Gogledd, De, Gorllewin)
- 60% o Gynnydd mewn hyfforddwr, dyfarnwr a gwirfoddolwr
- Lleihau'r gyfradd rhoi'r gorau iddi ymhlith pobl ifanc 14 i 16 oed sy'n chwarae hoci cae yng Nghymru o 20%
- Cynyddu'r ymgysylltu â grwpiau PYADd o 5%
- Cael rhaglen hoci wedi'i hymgorffori yng nghwricwlwm ysgolion a chefnogi'r sector addysgol gydag adnoddau hyfforddi i gynyddu'r ddarpariaeth Hoci mewn ysgolion.
- Cynyddu aelodaeth bechgyn o 15%
- Cefnogi cymuned Hoci Cerdded ffyniannus yng Nghymru gyda sefydlu adrannau hoci cerdded ymhlith clybiau.



CYSTADLU

Y gallu i wyllo neu gystadlu mewn hoci, gan feithrin awyrgylch hwyliog a chyffrous

Cynghreiriau a Digwyddiadau

- Goruchwylio a gweithredu strategaeth cynghrair a digwyddiadau gynhwysfawr gyda'r nod o arallgyfeirio ac ehangu tirlun cystadleuol hoci.
- Mae hyn yn cynnwys creu strwythur cadarn, addas i'r diben ar gyfer cynghreiriau ar draws lefelau amrywiol gan ddarparu digon o gyfleoedd ar gyfer cystadlaethau, twrnameintiau a digwyddiadau rheolaidd.
- Cydweithio ag endidau lleol i gynnal digwyddiadau amrywiol sy'n hyrwyddo cynhwysiant, rhagoriaeth a chyfranogiad eang yng Nghymuned Hoci Cymru
- Integreiddio Cymdeithas Dyfarnwyr Hoci Cymru, gan feithrin partneriaeth agosach a fydd yn gwella datblygiad cyfleoedd yn y dyfodol a'r cyfleoedd presennol.

Meistri

- Darparu cefnogaeth, arweiniad ac adnoddau i'n meistri Hoci trwy gydol eu tymor calendr gyda'r nod o rymuso mwy i gymryd rhan mewn Hoci.



CYSTADLU



Gemau Rhyngwladol

- Gwella mynediad i wyllo hoci rhyngwladol, ar-lein ac wyneb yn wyneb, er mwyn cynyddu'r sylw i athletwyr Cymru wrth i ni barhau i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr hoci.

Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion

- Aildanio cyffro a chystadleuaeth cynghrair colegau o fewn y sector addysgol
- Datblygu fformat gŵyl ryngweithiol sy'n annog ysgolion i gofleidio amgylchedd deinamig a chadarnhaol i chwaraewyr hoci newydd a thraddodiadol ei fwynhau.
- Ffurio partneriaeth gyda'r sector addysgol i gynllunio a chynnal gwyliau anabledd ar y cyd wrth i ni anelu at greu digwyddiadau cynhwysol a grymusol a fydd yn dathlu amrywiaeth.

Digwyddiadau Partner

- Cydweithio â sefydliadau ar ddigwyddiadau blynyddol sy'n bodoli eisoes, gan osod Hoci yn flaenllaw mewn profiadau arloesol a chyffrous.

CYSTADL

CYSTADLU

Bydd Llwyddiant yn...


- Cynnydd o 50% yn y rhai sy'n cymryd rhan mewn cystadlaethau ysgolion
- Creu strategaeth digwyddiadau erbyn tymor 2024/2025
- Sefydlu 1 fformat gŵyl 'dewch i roi cynnig arni' ym mhob rhanbarth ar gyfer ysgolion cynradd lle na fydd y cyfranogwyr yn teithio mwy na 30 munud i'r cyfleuster
- Cynnal 3 gŵyl Anabledd yn flynyddol
- Cydweithio gyda'r Urdd a darparu cystadleuaeth Hoci
- Cefnogi tîm 7 Calon Cymru a sicrhau bod gan Hoci bresenoldeb cryf o glybiau sy'n mynychu
- Cynnal 3 cystadleuaeth 5 bob ochr Ranbarthol i ysgolion / colegau
- Creu cynllun gweithredu gwrth hiliaeth clir sydd wedi'i ymgorffori ym mhob cod ymddygiad ar gyfer cystadlaethau a digwyddiadau





PERFFORMIO

Herio ac ysbrydoli yn gyson gyda'n
Perfformiad Rhyngwladol





Calendr a Chynllunio

- Cynllunio a chynnal calendr 4 blynedd effeithiol sy'n cynnig hyfforddiant a chystadleuaeth o ansawdd uchel i'n hathletwyr a'n staff ac sy'n caniatáu i'n sgwadiau symud ymlaen yn llwyddiannus tuag at eu canlyniadau.
- Dylai hyn hefyd ganiatáu ar gyfer asesu parhaus ar hyd y Llwybr o RPC i NAGs i Lefel Hŷn gyda hyblygrwydd a hylifedd priodol i adlewyrchu natur a gofynion newidiol y gamp ar lefel Elitaidd. Dull seiliedig ar anghenion o weithredu.

Y Ffordd Gymreig

- Creu disgrifydd aml-biler o beth yw'r sgiliau, y rhinweddau a'r nodweddion dymunol a gofynnol ar gyfer Chwaraewr Rhyngwladol Hŷn o Gymru, a fydd yn gweithio ochr yn ochr â Fframwaith System Dalent Prydain Fawr.
- Bydd hyn yn gweithredu fel cysylltydd i bob lefel i fyny ac i lawr y Llwybr a hefyd yn darparu eglurder i chwaraewyr, rhieni, staff hyfforddi a chymuned Hoci Cymru yn ehangach.

Dull Sy'n Canolbwyntio ar yr Athletwr o Weithredu

- Cyflwyno dull sy'n canolbwyntio ar yr athletwr o weithredu sy'n cynnwys ac yn caniatáu ar gyfer datblygiad hoci cyfannol, cydweithredol a phwrpasol sy'n cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig ag athletwyr ffordd o fyw deul a hefyd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a photensial i ffynnu.
- Cofnodi cynnydd unigolion ar hyd eu siwrnai ar ein Llwybr Rhyngwladol gyda Chynlluniau Datblygu Unigol.

PERFFORMIO

Cefnogi Perfformiad

- Gweithredu rhaglen Cefnogi Perfformiad sy'n gallu datblygu a chynnal ein hathletwyr i lefel sy'n caniatáu iddynt gyflawni uchelgeisiau a dyheadau unigol a chyfunol.
- Datblygu partneriaethau cefnogi penodol ochr yn ochr â thwf a chydweithio â'n sector Prifysgolion ac Addysg yng Nghymru a all wella ein darpariaeth cefnogi Perfformiad ymhellach a chefnogi talent o Gymru i aros yng Nghymru.

Staffio

- Recriwtio, cadw a datblygu ystod amrywiol o staff perfformiad sy'n bodloni'r meini prawf sefydliadol dymunol o fod yn 'bobl dda', sy'n 'ymroddedig iawn' i 'ychwanegu sgiliau a gwerth' at ein hamgylcheddau perfformiad uchel.

Prydain Fawr

- Ymrwymiad parhaus i gynhyrchu amgylcheddau sy'n ffafriol i chwaraewyr drosglwyddo i raglenni Prydain Fawr, ar lefel EDP a Hŷn, gan gyd-fynd fel y bo'n briodol â Fframwaith System Dalent Hoci Prydain Fawr a chydweithio'n effeithiol fel cenedl gartref gyda'n cyfrifoldebau i gefnogi Prydain Fawr a'n hathletwyr oddi mewn iddo.





PERFFORMIO

Bydd Llwyddiant yn...

CYFFREDINOL

- Adeiladu, cynnal a chynllunio ariannol llwyddiannus ar gyfer cylch Perfformiad 4 blynedd sy'n adeiladu tuag at berfformiad brig hŷn yn ystod blynyddoedd WC / CWG er mwyn sicrhau'r siawns orau o lwyddo.
- Datblygiad o fewn cynllunio / strategaeth Perfformiad, partneriaethau rhanbarthol gyda 3 Prifysgol yng Nghymru sy'n helpu i gadw talent yng Nghymru ac yn gwella ein lefelau o gefnogi Perfformiad.

PERFFORMIO Bydd Llwyddiant yn...



HÛN

- Y ddwy ochr HÛn yn gweithio tuag at gystadlu'n gyson ym Mhencampwriaethau Ewrop. (Pencampwriaeth 12 tîm o 2027 ymlaen)
- Y ddwy ochr HÛn yn gweithio tuag at orffeniad yn y 5 Uchaf yng Ngemau'r Gymanwlad.
- Y ddwy ochr HÛn yn gweithio tuag at gymhwyso ar gyfer rhifynnau nesaf Cwpan y Byd ac yn cystadlu ynddynt.
- Parhau i drosglwyddo 2-4 o chwaraewyr i gylchoedd rhaglen Datblygu/Uwch Prydain Fawr.

IAU

- Y ddwy ochr dan 21 yn gweithio tuag at gymhwyso ar gyfer yr 8 Uchaf mewn cystadleuaeth Ewropeaidd a chymhwyster ar gyfer Cwpan Iau'r Byd.
- Mae'r ddwy ochr dan 18 yn gyson yn cynnal safle 12 Uchaf yn safle Ewropeaidd ac yn gweithio tuag at gymhwyster Pencampwriaeth D18 Ewrop.
- Mae'r rhaglen iau yn trosglwyddo 2-4 chwaraewr yn gyson bob blwyddyn i sgwadiau HÛn.



DIOLCH!

HOCI CYMRU



WWW.HOCKEYWALES.ORG.COM